Y cylchgrawn i breswylwyr Tai Wales & West

AM DDIM

# In Touch

GAEAF 2025





# 60 MLYNEDD O GREU CARTREFI






# Amseroedd Cau dros y Nadolig

Bydd ein swyddfeydd ar gau i ymwelwyr ar ddydd Mercher 24 Rhagfyr a dydd Gwener 2 Ionawr, fodd bynnag, byddwch yn gallu ein ffonio fel arfer ar y diwrnodau hyn.

O 3pm ar ddydd Mercher 24 Rhagfyr (Noswyl Nadolig) tan 8am ar ddydd Gwener 2 Ionawr 2026, byddwn ar gau am y gwyliau Nadolig.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd ein sianelau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro. Os bydd gennych chi argyfwng brys yn ystod y cyfnod hwn, ffoniwch:

## 0800 052 2526

Am help gyda gwaith trwsio nad yw'n waith brys neu ymholiadau am daliadau rhent, trowch at ein gwefan:  wwha.co.uk

Os bydd eich taliadau Debyd Uniongyrchol yn cael eu talu dros y gwyliau, trowch at dudalen 23 am ragor o wybodaeth a manylion am y dyddiadau pan fyddant yn daladwy.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth a Lles Tenantiaid 24 awr gan Life & Progress yn cynnig cymorth proffesiynol a chyfrinachol yn ystod y gwyliau.

**Ffoniwch y rhif rhadffôn**

## 0330 094 8845

# NEGES ANNE



Wrth i'r flwyddyn lle'r ydym wedi bod yn dathlu ein pen-blwydd yn 60 oed ddirwyn i ben, mae'n amser da i ni oedi a bwrw golwg yn ôl dros flwyddyn ryfeddol o ddathlu a chyflawni.

I mi, un o'r uchafbwyntiau fu'r ffordd y mae cymunedau wedi dod ynghyd i drefnu partion pen-blwydd 60 oed.  O bartion stryd i de prynhawn, mae'n hyfryd gweld faint ohonoch sydd wedi bod yn ymwneud â hyn.  Er ein bod wedi darparu help wrth gynnig grant i brynu bwyd, chi sydd wedi gwneud y gwaith caled go iawn wrth gynllunio a dwyn pawb ynghyd.  Felly, diolch bawb.  Gallwch edrych yn ôl ar rai o'r lluniau yr ydych chi wedi'u rhannu gyda ni yn y rhifyn hwn.

Hefyd yn y rhifyn hwn, ni allem nodi 6 degawd o adeiladu cartrefi heb fyfyrio am rai o'r cymunedau yr ydym wedi'u creu.  Fodd bynnag, nid yw pen-blwyddi yn ymwneud ag edrych yn ôl yn unig, felly rydym yn edrych ymlaen at y 60fed cartref yr ydym wedi'i adeiladu eleni a'r 600+ o gartrefi eraill a fydd yn barod i groesawu preswylwyr newydd yn ystod y blynyddoedd i ddod.

A hefyd, byddwn yn datgelu canlyniadau ein Harolwg Bodlonrwydd Preswylwyr a'r hyn yr ydym yn mynd i'w wneud i wella ein gwasanaethau, ar sail yr hyn yr ydych chi wedi dweud wrthym sy'n bwysig i chi. Mewn rhan arall, mae cyngor ariannol er mwyn cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf eleni, ynghyd â'r newyddion arferol gan breswylwyr o gwmpas ein cynlluniau.

Diolch am ein helpu i wneud eleni yn flwyddyn i'w chofio, ac wrth i ni edrych ymlaen at y gwyliau, hoffwn estyn dymuniadau gorau i chi ar gyfer 2026.

### Ieithoedd a ffurfiau eraill

Os hoffech gopi o'r rhifyn hwn o In Touch yn Saesneg neu mewn iaith neu ffurf arall, er enghraifft, print mawr, a fyddech gystal â rhoi gwybod i ni a byddwn yn eich helpu.

wwhousing   wwha   wwhousing

## CYSYLLTWCH

Tai Wales & West, Tŷ'r Bwa, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU

**FFÔN:** 0800 052 2526
**TESTUN:** 07788 310420

**contactus@wwha.co.uk**
Gallwch gysylltu ag aelodau o staff yn uniongyrchol hefyd trwy anfon neges e-bost atynt. Er enghraifft, **joe.bloggs@wwha.co.uk**

**www.wwha.co.uk**

# CYNNWYS


05 **PEN-BLWYDD YN 60 OED**
Oriel o luniau o rai o'ch partïon cymunedol a gynhaliwyd i ddathlu ein pen-blwydd yn 60 oed.

14 **PA MOR FODLON YDYCH CHI Â'N GWASANAETHAU?**
Canlyniadau'r Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr diweddaraf.

20 **MATERION ARIANNOL**
Cadw'n gynnes y gaeaf hwn.

27 **CADW EIN GILYDD YN DDIOGEL**
Pam mae pawb yn haeddu byw a gweithio mewn amgylchedd diogel.

10 **DATBLYGIADAU NEWYDD**
O Abergwaun i Sir y Fflint, 60 mlynedd o adeiladu cartrefi




Ymdrechwyd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Byddem yn cynghori preswylwyr i droi at y wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan, **wwha.co.uk**, ar wefannau'r Llywodraeth a chan ffynonellau swyddogol a dibynadwy eraill.



# DATHLU 60 MLYNEDD

Hwyl gan wisgo mygydau ym mharti Unity yng Nghaerdydd

Trwy gydol eleni, rydych wedi bod yn dod ynghyd er mwyn ein helpu i ddathlu ein pen-blwydd yn 60 oed.

O'r Fflint i Abergwaun, o Gaerdydd i Aberteifi, mae nifer o breswylwyr wedi manteisio ar ein cynllun grant ar gyfer ein pen-blwydd yn 60 oed, gan drefnu digwyddiadau.


Yng Nghaerau, Trelái, Caerdydd, roedd rhieni o grŵp cymunedol Unity wedi dwyn pobl o bob oed ynghyd mewn parti yn ystod wythnos olaf y gwyliau haf. Bu cerddoriaeth, dawnsio, bwyd a bingo.

Mewn rhan arall o'r ddinas, bu preswylwyr hŷn mewn cynlluniau ymddeol yn mwynhau dathliadau trwy gydol y gwanwyn a'r haf. Roedd y rhain yn cynnwys Cwrt St Clements, Cwrt Stephenson, Cwrt Newlands, a Chwrt Hope, lle'r oedd un preswylydd wedi archebu cacen ben-blwydd arbennig, sef prif eitem y parti.

Bu Mared Pugh Evans, telynores swyddogol Ei Uchelder y Brenin, yn chwarae ar gyfer preswylwyr yn Llain Las, Abergwaun. Roedd y preswylwyr mewn cwmni da gan bod Mared wedi perfformio yn Nhŷ Highgrove a'r Senedd. Ar ôl perfformiad Mared, cafwyd bwffe i ddathlu.



Ymunodd teuluoedd yn y bingo i ennill gwobrau ym mharti Unity, Caerdydd




Y gacen i ddathlu'r achlysur yng Nghwrt Hope, Caerdydd



Mared Pugh, telynores y Brenin, yn difyrru'r preswylwyr yn Llain Las, Abergwaun



Preswylwyr yn dathlu yng Nghwrt Stephenson, Caerdydd



Torri'r gacen yng Nghwrt Hope, Caerdydd



Preswylwyr yn dathlu yng Nghwrt Newlands, Llanisien, Caerdydd



Parti stryd yn ystod yr haf yn The Meadows, Pen-y-bont ar Ogwr

Yn Fferm Y Bryn, Ystrad Mynach, daeth preswylwyr ynghyd i fwynhau brechdanau, danteithion sawrus, ffrwythau ffres a chacennau Fictoria bychain.

Yng Ngogledd Cymru, daeth preswylwyr Sgwâr Centenary, Y Fflint, ynghyd ar un o ddiwrnodau poethaf y flwyddyn ar gyfer eu parti nhw.

Yng nghynllun gofal ychwanegol Maes Y Môr yn Aberystwyth, roedd y tywydd gwael wedi golygu bod y dathliadau wedi cael eu symud i mewn i fod dan do.  Ond nid oedd hynny wedi difetha hwyl y preswylwyr, oherwydd bu llawer o ddawnsio, bwyd ac adloniant byw.



Janet, preswylydd, yn dod â'r bwyd cartref i Gwrt St Clements, Caerdydd



Dathliadau ym Maes Y Môr, Aberystwyth

# PEN-BLWYDD YN 60 OED

## 1960s

Agorodd ein cynllun cyntaf o 49 o fflatiau yng Nghwrt Hillside, Penylan, Caerdydd.

## 1970s

Datblygom tua 1500 o gartrefi ar draws Cymru a gorllewin Lloegr, gan gynnwys Cwrt Caerau a Rhodfa Celyn yng Nghaerdydd a Chlos Salisbury ym Mhenarth, a dechreuom ar y gwaith ar 300 o gartrefi yn Nhwyncarmel, Merthyr Tudful.

## 1980s

Agorom ein cynlluniau tai gwarchod cyntaf yng Nghwrt Sylvester, Wrecsam a Chwrt Willow, Caerdydd. Agorodd ein cynllun lesddaliadol cyntaf yng Nghwrt Stephenson, Caerdydd.

Yng Nghlos Tregare, Llaneirwg, Caerdydd, cychwynnom ar y gwaith ar un o’n datblygiadau cyntaf i ddefnyddio cyllid ar ffurf grant a chyllid preifat er mwyn adeiladu cartrefi rhent newydd, gan arwain y ffordd ar gyfer cymdeithasau tai eraill.

## 1990s

Agorwyd Tŷ Wilfred Brook, Grangetown. Yn ogystal, ailddatblygom yr hen wyrcws yn Llys Faen, Pen-y-bont ar Ogwr, a’i droi yn gartrefi. Gwnaethpwyd gwaith adnewyddu mawr yng Nghwrt Caerau yn Nhreláі, Caerdydd, a’r rhain oedd ein cartrefi cyntaf i gael deunydd Inswleiddio ar y Waliau Allanol (EWI) er mwyn gwneud y cartrefi yn gynhesach.

## Taith trwy'r degawdau

Eleni, rydym wedi bod yn dathlu ein pen-blwydd yn 60 oed. O groesawu preswylwyr i'n cartrefi rhent cost isel cyntaf yng Nghaerdydd ym 1965 i'n cartrefi diweddaraf yn Abergwaun ac Abergele, rydym yn falch o'r cartrefi yr ydym wedi gallu eu darparu ar gyfer ein preswylwyr.

Dechreuom weithio ar Brosiect Adfywio Betws. Roedd hyn yn golygu dymchwel 128 o gartrefi parod a'u disodli gyda 135 o gartrefi Safon Oes.



**2000s**

Agorwyd ein cynllun gofal ychwanegol cyntaf, sef Nant Y Môr ym Mhrestatyn, Sir Ddinbych, a dilynwyd hyn gan agoriad Llys Jasmine yn Yr Wyddgrug, sef y cyntaf yng Nghymru i gynnwys fflatiau arbennig ar gyfer pobl sydd â dementia.



**2010s**

Agorodd ein datblygiad tai newydd carbon isel cyntaf o 14 cartref yn Rhiw Cefn Gwlad, Pen-y-bont ar Ogwr. Yng Nghaerdydd, estynnom groeso i breswylwyr i 100 o gartrefi newydd yn Ffordd Yr Haearn ac yn Wrecsam, bu Canolfan Adnoddau Cymunedol Hightown yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed.



**2020s**

# Ein 60fed cartref eleni

Yn ystod y flwyddyn pan ddathlom ein pen-blwydd yn 60 oed, trosglwyddwyd yr allweddi i'r 60fed cartref i ni ei adeiladu yn 2025 ym Mharc y Chwarel yn Abergwaun.

Mae'r byngalo yn un o 50 o dai, fflatiau a byngalos ym Maesgwyn, yn Sir Benfro. Adeiladwyd y rhain ar safle hen farics y Fyddin, ac fe'u cwblhawyd gan ein partneriaid adeiladu, Jones Brothers (Henllan) Ltd, a dechreuodd y preswylwyr symud i mewn ym mis Tachwedd.

Yn Llys Onnen yn Abergele, rydym hefyd wedi dechrau croesawu'r preswylwyr newydd i'w cartrefi newydd. Adeiladwyd y datblygiad ar safle hen gartref gofal, a ddymchwelwyd er mwyn creu lle ar gyfer 43 o fflatiau. Adeiladwyd y cartrefi newydd gan ein partner adeiladu, Grŵp Castlemead.

Ar hyn o bryd, rydym yn adeiladu dros 600 o gartrefi ar draws Cymru. Wrth iddynt gael eu cwblhau, byddant yn darparu tai hanfodol ar gyfer cannoedd o breswylwyr y mae angen iddynt gael eu cartref eu hunain.



Ein 60fed cartref newydd eleni yn Abergwaun


Hen safle Lidl yng Nghaerfyrddin


Hen safle Ship and Anchor yn Abergwaun

# Gorllewin Cymru

- Hen safle Ship and Anchor yn Abergwaun
- Hen safle Lidl yng Nghaerfyrddin


Cwrt Pentwmpath yn Llai, Wrecsam


Llys Onnen, Abergele

# Gogledd Cymru

- Bay View Road ym Mae Colwyn
- Parc Technoleg Wynnstay yn Rhiwabon, Wrecsam
- Cwrt Pentwmpath yn Llai, Wrecsam
- Eaton Drive yn Wrecsam


Free Street, Aberhonddu, Powys


St Brides Road, Y Wig

# De Cymru

- Dau gynllun gofal ychwanegol newydd – Hafan Y Dderwen ym Mhenarth, Bro Morgannwg ac un arall yn Free Street, Aberhonddu, Powys
- St Brides Road, Y Wig
- Heol Y Pentir, Y Rhws

# "Pan gerddais i mewn i'm fflat, roedd yn teimlo fel cartref i mi"

Mae Eileen wedi byw yng Nghwrt Hope, Caerdydd am gyfnod hwy nag unrhyw un o'i chymdogion ac mae'n dweud ei fod wastad wedi teimlo fel ei chartref.

Roedd hi'n 67 oed pan symudodd i mewn gyda'i gŵr yn 2000. Roeddent wedi byw yn eu cartref teuluol yn ardal Cathays am dros bum degawd ac wedi magu eu tri o blant yno.

"Daeth amser pan nad oedd fy ngŵr yn gallu cerdded i fyny'r grisiau yn ein cartref mwyach, felly argymhellodd ein meddyg y dylem symud i Gwrt Hope.
"Roeddem wedi byw yn ein cartref am 50 mlynedd, felly roedd hi'n anodd i ni symud yn y lle cyntaf.

"Rhoddom ein henw i lawr am fflat ac arhosom am ddwy flynedd i fflat fod ar gael.

Roedd hynny 25 mlynedd yn ôl, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Eileen, sydd bellach yn 92 oed, wedi gwneud nifer o ffrindiau yn y cynllun. Bu farw ei gŵr wyth mlynedd yn ôl, ond mae Eileen wedi parhau i werthfawrogi cyfeillgarwch a'r cyfle i gyfarfod yn rheolaidd gyda'i chymdogion.

"Pan symudom i mewn yn gyntaf, cawsom ein gwahodd i lawr i'r lolfa a chawsom ein cyflwyno i bobl arall a oedd yn byw yno. Cawsom groeso mor gynnes. Dros y blynyddoedd, rydw i wedi gwneud rhai ffrindiau da.

"Mae pawb yma yn hyfryd a chyfeillgar iawn. Ni allwn ofyn am gymdogion gwell.

"Pan fydd pobl yn symud i mewn yma, ni fyddant yn dymuno gadael gan bod pawb mor hyfryd.

"Pryd bynnag y byddaf yn mynd allan, ni allaf aros i ddychwelyd gartref."



**"Rydw i'n cofio y tro cyntaf pan ddangoswyd y fflat i ni. Cerddais i mewn, edrychais allan trwy'r ffenestr a throi at fy ngŵr a dweud, mae'n teimlo fel cartref."**

Eileen gyda Gemma, Swyddog Tai

# Preswylwyr Nant y Môr yn codi dros £500 ar gyfer elusen

Roedd pawb yn y cynllun gofal ychwanegol ym Mhrestatyn wedi mwynhau te, cacennau ac adloniant, a chyflwynwyd gwobrau raffl i enillwyr lwcus.

Arweiniodd preswylwyr yr ymdrechion codi arian yn ystod bore coffi ar gyfer Cymorth Canser Macmillan. Rhoddont wobrau i'r raffl a throi at ffrindiau, teulu a busnesau lleol am help.

Dywedodd Kelly Cartlidge, Rheolwr Gofal Ychwanegol: "Diolch i breswylwyr a staff am ei wneud yn ddiwrnod gwych."

# Sgowtiaid Môr yn dwyn natur i'n gerddi yn Abergwaun

Mae preswylwyr mewn cynllun ymddeol yn Abergwaun wedi bod yn gweithio gydag aelodau ifanc Sgowtiaid Môr Wdig i ddwyn rhagor o adar, gwenyn ac ystlumod i'w gerddi.

Bu'r sgowtiaid yn gwneud bocsys adar ac ystlumod, tai pryfed a baths gwenyn ar gyfer yr ardaloedd patio o gwmpas Llain Las, lle y mae un o'u harweinwyr sgowtiaid, Elaine, yn byw gyda'i chymdogion.

Ymwelodd y sgowtiaid â'r cynllun i ddarparu'r eitemau a gosod y baths gwenyn o gwmpas yr ardaloedd patio, a bu preswylydd arall, Andy, yn gosod y bocsys.

Mae'r preswylwyr yn dweud eu bod yn edrych ymlaen at weld mwy o bryfed ac adar yn y gerddi.



# Parti stryd yn cymryd drosodd Bracla

Bu llu o breswylwyr o ardal Meadows ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr, yn mwynhau parti stryd yn ystod yr haf.

Y stryd y tu allan i'r ganolfan deuluoedd ym Mracla oedd y lleoliad, ac roedd ganddynt gastell neidio, paentio wynebau a gemau hwyliog, gan gynnwys rasys sboncwyr.

Roedd digon o fwyd hefyd, gyda barbiciw, cŵn poeth, candi-fflos, peiriannau gwneud diodydd rhew a fan hufen iâ.

**Roedd pobl o bob oed, o fabanod i breswylwyr hŷn, wedi ymuno â'r parti i ddathlu ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae mwy o luniau o'r parti ar dudalen 6.**



# Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr



**Ym mis Mai a Mehefin, estynnwyd gwahoddiad i breswylwyr gymryd rhan mewn Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr.**

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi lefelau bodlonrwydd preswylwyr yr holl ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru. Dewiswyd preswylwyr ar hap i lenwi'r arolwg ar-lein, dros y ffôn neu ar bapur. At ei gilydd, roedd 1,141 o aelwydydd wedi cymryd rhan, a oedd yn cynrychioli dros 1 o bob 10 preswylydd.

Rydym wedi astudio'r canlyniadau, ac maent yn dangos, er bod y lefel fodlonrwydd gyffredinol wedi codi ychydig, bod dau prif faes lle y mae angen i ni wneud gwelliannau.

Y rhain yw:

- Y ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth gan breswylwyr fel y gallwn ddarparu'r gwasanaethau y mae pob unigolyn yn eu dymuno (proffilio preswylwyr)
- Y ffordd yr ydym yn ymgysylltu gyda phreswylwyr, a oedd yn bwysig i 81% o'r preswylwyr a holwyd.

**Lefel y bodlonrwydd cyffredinol oedd 82%**



Mae **82%** yn ymddiried ynom





Mae **82%** yn hapus gydag ansawdd eu cartref

Mae **82%** yn falch gyda'r ffordd yr ydym yn delio â gwaith trwsio a chynnal a chadw eich cartrefi, sy'n sgôr sydd wedi aros yn uchel dros y pedwar arolwg diwethaf. Roedd preswylwyr yn y Gogledd a'r De wedi sgorio'n uwch na phreswylwyr yn y Gorllewin.



## Mae 77%

yn hapus gyda'u cymdogaeth fel lle i fyw. Rydym yn ymdrechu i greu cymunedau lle y gall ein preswylwyr ffynnu. Ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) oedd un o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam bod preswylwyr yn dweud eu bod yn anfodlon.





## Mae 82%

yn teimlo bod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. O ran taliadau gwasanaeth, roedd 66% yn teimlo eu bod yn cynnig gwerth am arian.

## Mae 59%

o breswylwyr sydd wedi wynebu problemau yn dweud eu bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio ag YG yn gyffredinol. Nid oedd 92% o'r rhai a holwyd wedi ymateb i'r cwestiwn gan nad oeddent wedi adrodd am YG yn ystod y 12 mis diwethaf.



# Gwrando a dysgu

**Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn ffactor pwysig o ran bodlonrwydd cyffredinol, felly gofynnom gwestiynau ychwanegol a chanfod:**

## Mae 67%

yn teimlo ein bod yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu yn eu cylch.

## Mae 81%

yn dweud ei bod hi'n bwysig eich bod yn gallu rhannu eich safbwyntiau am faterion sy'n effeithio arnoch yn uniongyrchol, gan gynnwys eich cartref a'r ardal lle'r ydych chi'n byw.



## Mae 64%

bron i ddau o bob tri, yn dymuno cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a chael cyfrannu at y ffordd yr ydym yn rheoli gwasanaethau.

# Beth Nesaf?

**Diolch i bawb a neilltuodd yr amser i lenwi'r arolwg a rhannu eich gwir deimladau gyda ni.**

Er bod y lefelau bodlonrwydd wedi aros yn uchel yn gyffredinol, rydym yn gwybod bod gwelliannau i'w gwneud.

Rydym yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio canlyniadau'r arolwg i sicrhau ein bod yn gwybod ac yn deall yr hyn sy'n bwysig i chi wrth i ni wneud gwelliannau i wasanaethau.

Mae ein staff yn cymryd rhan mewn sgyrsiau cymunedol ar draws Cymru. Rydym yn gweithio ar y ffyrdd yr ydym yn rhoi adborth am sut yr ydym yn gwrando ac yn ymateb i'ch safbwyntiau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.

Er mwyn teilwra ein gwasanaethau, mae angen i ni wella'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu am breswylwyr unigol (yr hyn a alwn yn broffilio preswylwyr).

Byddwn yn defnyddio ein sgyrsiau gyda chi wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy negeseuon e-bost ac allan yn y gymuned i gasglu'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig gan ei fod yn ein helpu ni i ddeall anghenion amrywiol yn well, gwella darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng cymorth wedi'i deilwra, a gwella'r gweithgarwch gwneud penderfyniadau.

# Sut ydym yn gwneud?

Gallwch ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad llawn ar-lein yma:


Rydym wastad yn ystyried ffyrdd o wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n preswylwyr.

Fel rhan o hynny, rydym yn sôn wrthych yn rheolaidd am ein perfformiad, fel y gallwch weld sut yr ydym yn gwneud fel busnes.


**Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y cartrefi newydd yr ydym yn eu datblygu, ar sail ein ffigurau o fis Ebrill i fis Mehefin 2025.**

## Cipolwg...

**719** Mae 719 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd



**9.4/10** Yw'r sgôr a roddodd preswylwyr i'w cartrefi newydd


229
Mae 229 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yng Ngogledd Cymru
287
Mae 287 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yng Ngorllewin Cymru
203
Mae 203 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn Ne Cymru



# Cadw'n gynnes y gaeaf hwn

Wrth i'r tymheredd ddechrau disgyn, mae nifer o aelwydydd yn wynebu'r her o gadw'n gynnes wrth reoli costau ynni sy'n codi. Dyma wybodaeth am rywfaint o'r cymorth sydd ar gael.

**Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes**
Menter yw hon sy'n cael ei chefnogi gan y Llywodraeth ac sy'n cynnig gostyngiad o £150 oddi ar eich bil trydan i aelwydydd cymwys.

Eleni, estynnwyd y gofynion cymhwyso er mwyn cynnwys miliynau yn fwy o aelwydydd incwm isel. Fel arfer, bydd eich cyflenwr yn tynnu'r £150 oddi ar eich bil trydan rhwng mis Hydref a mis Mawrth, yn hytrach na'i dalu i unigolion.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, dylech gael y Gostyngiad Cartrefi Cynnes ar gyfer 2025/26 yn awtomatig, ar yr amod bod eich enw ar eich bil trydan erbyn 24 Awst 2025.

Dylech fod yn gymwys:

- os ydych yn cael elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, neu
- os ydych ar incwm isel

Os ydych chi'n defnyddio mesurydd rhag-dalu neu dalu-wrth-ddefnyddio, gallwch fod yn gymwys o hyd, ond bydd angen i chi wirio gyda'ch cyflenwr trydan.

Am restr lawn o'r budd-daliadau cymwys, trowch at wefan DWP, sef **gov.uk/the-warm-home-discount-scheme/**

### Taliad Tanwydd Gaeaf

Eleni, mae'r Llywodraeth wedi adfer y Taliad Tanwydd Gaeaf i bob pensiynwr yn y DU. Caiff ei dalu yn awtomatig i bawb a anwyd cyn 22 Medi 1959.

Mae'r taliad yn talu'r gost ychwanegol o wresogi eich cartref yn ystod y gaeaf, a bydd pob aelwyd cymwys yn cael £200, neu £300 os bydd rhywun dros 80 oed yn byw ar yr aelwyd.

Mae'r taliad yn seiliedig ar y man lle y cawsoch eich geni a'ch amgylchiadau rhwng 15 a 21 Medi 2025, sef yr wythnos y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ei hystyried fel yr 'wythnos gymhwyso'.

Dylech fod wedi cael llythyr ym mis Hydref neu fis Tachwedd yn nodi swm y Taliad Tanwydd Gaeaf y byddwch yn ei gael.
Os na chawsoch chi lythyr ond rydych chi'n credu eich bod yn gymwys, trowch at wefan DWP i wirio a oes angen i chi wneud hawliad, www.gov.uk/winter-fuel-payment/how-to-claim.

### Taliad Tywydd Oer

Mae'r rhain yn wahanol i'r Taliad Tanwydd Gaeaf ac mae modd eu talu yn awtomatig os bydd y tymheredd yn gostwng i 0°C neu'n is am saith niwrnod. Gall aelwydydd cymwys gael £25 am bob cyfnod o dywydd oer sy'n para 7 niwrnod rhwng 1 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026.

I weld a ydych chi'n gymwys, trowch at www.gov.uk/cold-weather-payment/eligibility

### Gwiriadau Ynni y Cartref Am Ddim gan Age Cymru

Os ydych chi dros 65 oed ac yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu ym Mhowys, efallai y gallech gael gwiriad ynni am ddim ar gyfer eich cartref. Gall eu Swyddogion Ynni ymweld â'ch cartref i gynnig cyngor ynghylch arbed arian ac ynni, a'ch helpu i newid cyflenwr yn ôl y gofyn. Gallant gynnig offer arbed ynni am ddim a gwaith gosod hefyd.
Cysylltwch ag Age Cymru Powys ar 01686 623707 neu, ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr, cysylltwch ag Age Cymru Gorllewin Morgannwg ar 01792 648 866 neu trowch at www.ageuk.org.uk.

### Sut i Gael Help


Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich biliau ynni, cysylltwch â'n Swyddogion Cymorth Tenantiaeth (TSOs) sy'n gallu eich helpu i wirio'r hyn yr ydych yn gymwys i'w gael. Gallant hefyd gynnig cyngor i chi am unrhyw gymorth arall sydd ar gael.
Cysylltwch â'ch Swyddog Cymorth Tenantiaeth neu'ch Tîm Cymorth Tai ar 0800 052 2526.

# Rhybudd am Sgam

**Mae DWP wedi cyhoeddi rhybudd yn erbyn sgamwyr sy'n anfon negeseuon testun at bobl yn gofyn iddynt gyflwyno eu cais am daliad Tanwydd Gaeaf.**

**Os byddwch yn cael neges fel hyn – stopiwch. Peidiwch â chlicio ar unrhyw ddolenni na rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.** **Gallai fod yn sgam.**

**Mae DWP yn nodi bod yr holl Daliadau Tanwydd Gaeaf yn cael eu talu yn awtomatig, nid oes yn rhaid i chi wneud unrhyw beth.**
**Os byddwch yn cael neges destun amheus, gallwch adrodd amdani** **stopthinkfraud.campaign.gov.uk**



# Peidiwch â chychwyn eich blwyddyn newydd yn gofidio am arian

## Gofynnwch am help

Gyda chostau byw o ddydd i ddydd yn codi, mae rhedeg cartref a theulu yn ddrud trwy gydol y flwyddyn.

Mae ein staff tai yma i gynorthwyo preswylwyr i reoli eu sefyllfa ariannol, pan fydd angen ychydig help ychwanegol arnynt.

Gall y Nadolig fod yn gyfnod lle y mae pwysau ychwanegol ar gyllidebau sydd eisoes yn dynn.

Os ydych chi'n teimlo y gallech chi fod yn ei chael hi'n anodd talu eich biliau sy'n cael blaenoriaeth, fel bwyd, rhent, gwres a threth gyngor, cysylltwch.

Gall ein Swyddogion Cymorth Tenantiaeth a Thai fanteisio ar gyngor a chymorth ariannol a allai eich helpu chi. Gallant hefyd weithio gyda chi ar eich cynlluniau talu rhent er mwyn ystyried eich sefyllfa ariannol.

I weld manylion eich Swyddog Tai, trowch at y dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan, wwha.co.uk neu siaradwch ag aelod o staff a byddant yn gallu cysylltu â'r bobl gywir i'ch helpu chi.



Trwy siarad gyda ni, gallwn gynnig cymorth i chi fel na fyddwch yn cychwyn 2026 gyda phryderon ariannol.

DIRECT Debit

# Taliadau Debyd Uniongyrchol

## Dros y gwyliau Nadolig



Yn ystod y gwyliau Nadolig, gyda'r banciau ar gau, gallai'r dyddiadau canlynol effeithio ar eich taliadau rhent Debyd Uniongyrchol.

**Os bydd eich Debyd Uniongyrchol yn cael ei dalu i ni ar 25 neu 26 Rhagfyr, ni fyddwch yn gweld hwn yn dod allan o'ch cyfrif banc tan ddydd Llun 29 Rhagfyr.**

**Bydd taliadau Debyd Uniongyrchol a fydd yn ddyledus ar ŵyl y banc neu ar benwythnos yn cael eu talu ar y diwrnod gwaith nesaf. Os bydd eich Debyd Uniongyrchol yn ddyledus ar ddydd Iau 1 Ionawr, ni fydd hwn yn dod allan o'ch cyfrif banc tan ddydd Gwener 2 Ionawr.**

Gallai'r taliadau hyn, fodd bynnag, ymddangos fel taliad yn yr arfaeth ar eich cyfrif, gan effeithio ar swm eich arian clir dros ŵyl y banc.

Sylwer na fyddwn yn gallu prosesu unrhyw newidiadau i daliadau Debyd Uniongyrchol ar ôl dydd Iau 18 Rhagfyr tan ddydd Gwener 2 Ionawr.


# Mae cymdogion da yn creu cymunedau hapus

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn un o achosion mwyaf cyffredin cwynion y byddwn yn eu cael gan ein preswylwyr.

O niwsans sŵn, ysbwriel a phroblemau parcio i fandaliaeth a defnyddio cyffuriau, gall ymddygiad rhai o'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi ac sy'n ymweld â'n cartrefi gael effaith ddifrifol ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl cymdogion.

Pan geir tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus a bwriadol, neu weithgarwch troseddol, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau eraill i ddelio â'r cwynion.

Mewn rhai ardaloedd, rydym yn cyflwyno Cytundebau Cymydog Da hefyd.





## Beth yw Cytundebau Cymydog Da?

Dywedodd Philip Carroll, Pennaeth Rheoli Tai, "Maent yn ffordd o ddwyn preswylwyr ynghyd i gydnabod yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol a chwrtais yn ein cartrefi a'n cymunedau.

"Rydym yn gweld eu bod yn effeithiol mewn cynlluniau lle y mae preswylwyr o wahanol genedlaethau a ffyrdd o fyw yn cyd-fyw. Os oes rhywun wedi bod yn byw yno am 20 mlynedd neu am bythefnos, gall y cytundebau fod yn ffordd dda o atgoffa pawb o'r hyn i'w ddisgwyl a sut i barchu unigolrwydd pawb, fel y gallant oll fod yn gymdogol.

"Bydd yr hyn sy'n ymddangos mewn cytundeb yn amrywio o un cynllun i'r llall. Bydd ein Swyddogion Tai yn gweithio gyda phawb sy'n byw mewn cymuned neu gynllun i lunio rhestr o'r pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae cytundeb o'r fath yn cyflwyno'r cyd-destun i bobl newydd sy'n symud i mewn, ac mae'n atgoffa preswylwyr o'u cyfrifoldebau.

Fel rheol, gallai gynnwys rhoi sbwriel a deunydd ailgylchu yn y mannau cywir mewn storfeydd biniau, defnyddio lleoedd parcio neu lefel sŵn a cherddoriaeth. Gallai hefyd ymestyn i gymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad teulu, ffrindiau ac anifeiliaid anwes sy'n ymweld.

"Mewn cynlluniau ymddeol, gallai gynnwys defnyddio lolfeydd cymunol, golchdai a gerddi.

**"Gall rhai cwynion gychwyn fel niwsans, ond gallant waethygu, felly rydym yn gweld bod y cytundebau yn helpu i nodi'r hyn a ddisgwylir gan breswylwyr."**






## Camera a chlychau drysau diogelwch

**Mae clychau drysau deallus, fel camerâu Canu, wedi dod yn fwy poblogaidd. Os ydych chi'n bwriadu gosod un, neu os ydych chi eisoes wedi gosod un, byddem yn gofyn i chi ofyn am ein caniatâd ni fel rhan o'ch Contract Meddiannaeth.**

Yn gyffredinol, byddem yn rhoi caniatâd. Fodd bynnag, byddem yn gofyn bod eich camera yn creu fideo o fewn terfynau eich eiddo, ac nad yw'n creu fideo o ardaloedd a rennir neu o gartrefi a gerddi eich cymdogion, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data presennol a chyngor ICO ynghylch arfer gorau.



# Beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os byddwch yn adrodd am ddigwyddiad, byddwn yn nodi'r hyn y gallwn ei wneud a'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl o'r unigolyn sy'n cwyno.

Mewn achosion sy'n cynnwys gweithgareddau difrifol a throseddol, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu, neu gyda swyddogion iechyd yr amgylchedd pan geir cwynion am sŵn parhaus. Dywedodd Phil Carroll, "Mewn nifer o achosion, efallai y byddwn yn gofyn i breswylydd gasglu tystiolaeth. Er enghraifft, yn achos cwynion ynghylch sŵn, gallai hyn olygu lawrlwytho ap a chofnodi'r synau. Trwy wneud hyn, gallwn ganfod a yw'n creu niwsans parhaus neu fwriadol.

"Gyda thystiolaeth, gallwn gymryd camau pellach. Gallai hynny olygu llunio Contract Ymddygiad Derbyniol, a fyddai'n sicrhau bod unigolyn yn atebol, eu helpu i ddeall canlyniadau eu gweithredoedd, a chynnig cymorth er mwyn gwella eu hymddygiad cyn bod angen cymryd camau cyfreithiol mwy difrifol.

**"Yna, os byddant yn torri amodau'r contract, byddem yn ceisio cymryd camau cyfreithiol pellach."**

| Yr hyn sy'n faterion i'r heddlu: | Yr hyn a ystyrir yn ymddygiad gwrthgymdeithasol: | Yr hyn na chaiff ei ystyried fel ymddygiad gwrthgymdeithasol: |
|---|---|---|
| • difrod troseddol neu fandaliaeth<br>• gwahaniaethu neu elyniaeth sy'n seiliedig ar hunaniaeth rhywun<br>• ymddygiad bygythiol ac aflonyddu<br>• ymosodiad llafar neu gorfforol treisgar<br>• cam-drin domestig<br>• defnyddio cyffuriau/delio cyffuriau | • cicio pêl at gar yn fwriadol gan wneud difrod<br>• difrodi eiddo cymydog yn fwriadol<br>• niwsans sŵn parhaus, er enghraifft, cerddoriaeth uchel neu gi yn cyfarth<br>• camddefnyddio ardaloedd cymunol, er enghraifft, gadael sbwriel neu faw ci<br>• tipio anghyfreithlon neu beidio rheoli casgliadau gwastraff | • rhywun yn cael parti yn achlysurol<br>• cerddoriaeth/sŵn uchel yn achlysurol<br>• cŵn yn cyfarth yn achlysurol<br>• plant yn rhedeg i fyny ac i lawr y grisiau neu'n chwarae gemau pêl mewn ardaloedd cyhoeddus<br>• pobl yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd, er enghraifft, gweithwyr sy'n gweithio shifftiau nos<br>• cymdogion sy'n cweryla ar gyfryngau cymdeithasol |

# Cadw ein Gilydd yn Ddiogel



Yn Nhai Wales & West, rydym yn falch o wasanaethu cymuned lle y mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn barchus, yn garedig ac yn gefnogol.

Yn anffodus, fel nifer o sefydliadau tebyg, rydym yn wynebu sefyllfaoedd o bryd i'w gilydd lle y bydd staff yn dioddef ymddygiad annerbyniol ac mae'n ymddangos bod hyn ar gynnydd.

**Gall hyn gynnwys:**


- **cam-drin ar lafar neu ymosodedd**
- **bygythiadau neu drais corfforol**
- **bygylu neu sylwadau dirmygus**
- **honiadau di-sail**
- **galwadau afresymol neu gyswllt parhaus**

Er bod y digwyddiadau hyn yn brin, gallant gael effaith ddifrifol ar les ein tîm. Credwn bod pawb yn haeddu teimlo'n ddiogel yn y gwaith, yn yr un modd ag y mae pob preswylydd yn haeddu teimlo'n ddiogel yn eu cartref.

Dyna pam ein bod yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfathrebu parchus. Mae ein staff yma i helpu, ac rydym yn dymuno sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mewn sefyllfaoedd pan fo staff yn teimlo'n anniogel, cânt eu grymuso i gymryd camau priodol, a allai gynnwys terfynu galwad neu ymweliad, cyfyngu ar ddulliau cyswllt, cofnodi gwybodaeth am y digwyddiad ar ein systemau, neu yn yr achosion mwyaf difrifol, cysylltu â'r heddlu.

> "Gyda'n gilydd, gallwn barhau i drin ein gilydd gyda charedigrwydd a pharch."



# Cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn ein cymunedau

Mae tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem enfawr ar draws ein cymunedau ac ar draws Cymru gyfan.

Mae'r ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn dangos y bu dros 40,000 o achosion tipio anghyfreithlon yn 2023. Mae dwy rhan o dair o'r gwastraff hwnnw yn dod o aelwydydd.



Mae'r gost o glirio gwastraff sydd wedi cael ei adael mewn mannau yn anghyfreithlon ar draws ein cymunedau yn gannoedd ar filoedd o bunnoedd bob blwyddyn, gan bod yn rhaid i ni dalu cwmnïau gwastraff arbenigol i'w waredu. Byddai'n well pe bai'r arian hwn yn cael ei wario ar wella eich cartrefi.

Ar draws ein cymunedau, ceir nifer o ardaloedd problemus ar gyfer tipio anghyfreithlon, lle y caiff sbwriel ei adael yn rheolaidd.

"Mae tipio anghyfreithlon yn broblem fawr, ac mae'n ymddangos ei fod yn gwaethygu." dywedodd Phil Carroll, Pennaeth Tai TWW.

"Nid yn unig y mae'n edrych yn wael, ond os yw'n cynnwys gwastraff aelwyd, bydd yn denu llygod mawr a phlâu eraill.

"Mae sbwriel yn creu sbwriel. Fel yr ydym wedi gweld yn y newyddion gyda'r streiciau biniau mewn rhannau eraill o'r DU, pan gaiff gwastraff ei adael, bydd eraill yn ychwanegu ato, a bydd yn dod yn broblem fwy fyth.

"Rydym yn cael problemau hefyd lle y bydd pobl yn credu eu bod yn gwneud y peth iawn trwy fynd â'u gwastraff i lawr i'r storfeydd biniau." ychwanegodd Phil. "Ond os byddant yn rhoi'r eitemau anghywir yn y biniau ailgylchu anghywir, bydd yn cael ei ystyried fel croes-halogi ac ni fydd yn cael ei gasglu. Mae hynny yn ychwanegu at y problemau gwastraff.

**"Mae rhan fwyaf ein preswylwyr yn gwneud y peth iawn, ond mae rhai yn creu problem i bawb."**

Wrth i ni agosáu at y dathliadau adeg y Nadolig, a fyddech gystal â sicrhau eich bod yn cael gwared ar eich gwastraff mewn ffordd gywir.



# Ailgylchu eich eitemau tymhorol. Cyngor gan Walesrecycles.org.uk

## Concro eich deunydd pacio cardbord

Gall yr adeg hon o'r flwyddyn olygu mynydd o focsys cardbord! Yng Nghymru, mae 95% o bobl eisoes yn ailgylchu cardbord. Tynnwch y tâp pacio oddi arno, gwasgwch unrhyw focsys yn fflat a'u torri'n ddarnau llai o faint er mwyn arbed lle. Ceisiwch gadw cardbord yn sych fel ei fod yn y cyflwr gorau i gael ei ailgylchu.

## Ailgylchwch (neu ailddefnyddiwch) duniau a thybiau siocled

Gallwch ailgylchu tybiau siocled a melysion. Ond beth am roi bywyd newydd iddynt hefyd trwy eu hail-lenwi â rhagor o ddanteithion neu eu defnyddio i storio pethau.

## Bwyta, ailgylchu a mwynhau

Mae chwarter y bin sbwriel cyfartalog yn fwyd, a byddai wedi bod modd bwyta dros 80% o hwnnw. Er mwyn osgoi gwastraffu arian a bwyd, ceisiwch gynllunio ymlaen llaw cyn i chi siopa bwyd, gan ddefnyddio bwyd sydd ar ôl ym mhrydau y diwrnod dilynol.

Dylech roi unrhyw beth na ellir ei fwyta – fel esgyrn twrci, croen ffrwythau a llysiau, bagiau te a phlisg wyau – yn eich bin bwyd fel bod modd eu hailgylchu yn ynni adnewyddadwy.

## Cofiwch am y ffoil

A wyddoch chi bod modd ailgylchu eitemau metel fel ffoil dro ar ôl tro heb i'w hansawdd waethygu? Ailgylchwch unrhyw ffoil glân, gan gynnwys casys mins-peis, trwy eu rinsio yn gyflym er mwyn cael gwared ar unrhyw fwyd, saim neu olew, a'i wasgu'n belen er mwyn ei helpu trwy'r broses ddidoli deunydd ailgylchu.

## Ailgylchu papur lapio

Ni ellir ailgylchu pob math o bapur lapio. Mae rhai mathau yn cynnwys llawer o inc neu haen o fetel neu blastig na ellir ei wahanu o'r papur. Nid yw rhai mathau o bapur tenau o ansawdd digon da i gael eu hailgylchu, ac mae tâp glynu yn golygu nad oes modd ei ailgylchu. Ceisiwch arbed papur lapio sydd mewn cyflwr da ar gyfer blwyddyn nesaf neu ewch ati i fod yn greadigol gan ddefnyddio dewisiadau amgen ecogyfeillgar i lapio anrhegion, megis papur newydd, ffabrig neu gwdyn anrheg.

## Ailgylchu cardiau ac amlenni

Gellir ailgylchu'r rhan fwyaf o gardiau Nadolig yn eich cynhwysydd neu'ch cwdyn cardbord neu bapur – cofiwch waredu unrhyw gliter, rhubanau, bows a ffoil. Gallech gadw cardiau hefyd er mwyn creu eich rhai eich hun flwyddyn nesaf!

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD • GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

**Rydym wedi llwyddo i gadw ein Safon Draig Werdd Lefel 2, gwobr amgylcheddol genedlaethol ar gyfer busnesau gwyrdd, sy'n dangos ein bod yn gweithredu er mwyn deall ein heffaith ar yr amgylchedd.**

# Rheoli llwydni a chyddwysiad



Wrth i'r tywydd oeri, rydym yn troi at y ffordd orau y gallwn eich helpu chi i gadw eich cartref yn gynnes ac yn gyffyrddus.

Bydd nifer ohonom yn profi cyddwysiad ar ryw adeg, a achosir pan fydd aer cynnes yn cael cyswllt ag arwyneb oer, gan ffurfio dafnau o ddŵr. Mae ffenestri llaith ar fore oer rhewllyd, neu ar ôl cael cawod boeth, yn enghreifftiau o gyddwysiad.

O ddelio ag ef yn brydlon, ni ddylai cyddwysiad beri problem. Os caiff ei adael, fodd bynnag, gall gynnig amgylchedd delfrydol ar gyfer llwydni. Mae sborau llwydni yn rhan naturiol o'n hamgylchedd ac maent yn bresennol yn yr aer bob amser. Er mwyn goroesi, mae angen amodau llaith a deunydd organig arnynt i fwydo arno.
Yn gyffredinol, bydd llwydni yn ffynnu lle y mae lefel y lleithder yn uchel a bydd yn datblygu fel smotiau bach llwyd, gwyrdd neu ddu, a fydd yn tyfu ac yn lledaenu os na chânt eu trin.

## Beth fyddwn yn ei wneud i helpu?

Os byddwch yn ffonio i adrodd am unrhyw waith trwsio, bydd ein swyddogion yn gofyn a oes gennych chi unrhyw lwydni neu gyddwysiad difrifol yn eich eiddo, ac os felly, byddant yn gofyn rhai cwestiynau pellach er mwyn cael rhagor o wybodaeth fel y gallwn benderfynu ar y camau gorau i'w cymryd. Yr ymateb mwyaf cyffredin yw anfon un o'n Swyddogion Rheoli Eiddo ac Ystadau i ymweld. Er bod rhai achosion o lwydni o ganlyniad i lefelau lleithder a chyddwysiad uchel parhaus, gallai fod yn cael ei achosi gan ddiffygion strwythurol hefyd. Mae gan ein Swyddogion yr offer er mwyn gallu cynnig diagnosis a chreu cynllun gweithredu i drin y llwydni a'ch helpu i leihau'r perygl y bydd yn dychwelyd.

Yn ogystal, efallai y bydd angen i ni anfon un o'n contractwyr i drin y mater a byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn achosion o'r fath, ac yn rhoi gwybod amseroedd apwyntiadau i chi.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ganiatáu mynediad i drin unrhyw lwydni yn eich eiddo.



## Rhagor o wybodaeth a chymorth

Mae ein gwefan yn cynnwys ychydig gyngor ymarferol er mwyn eich helpu i reoli cyddwysiad a llwydni yn eich eiddo. Trowch at yr adran ynghylch llwydni a lleithder ar **www.wwha.co.uk** am ragor o wybodaeth.

Rydym yn dymuno eich helpu os oes gennych chi unrhyw gyddwysiad neu lwydni yn eich eiddo. Ffoniwch ni ar **0800 052 2526** er mwyn i ni allu gweithredu yn gyflym a'ch helpu i gadw eich cartref yn gyffyrddus ac yn iach.

## Sut i osgoi llwydni rhag tyfu

Gall llwydni achosi difrod i ddillad a dodrefn ac mae ganddo y potensial i achosi problemau iechyd, yn enwedig ymhlith plant ifanc, pobl oedrannus, neu unrhyw un sydd â chyflwr resbiradol. Y ffordd orau o osgoi hyn yw rheoli lefelau lleithder yn eich cartref er mwyn atal llwydni rhag goroesi a thyfu. Fel arall, bydd trin unrhyw ddarnau bychain o lwydni fel y maent yn ymddangos, gan ddefnyddio hydoddiant cannydd neu ddeunydd glanhau, yn sicrhau na fydd yn tyfu. Os byddwch yn trin llwydni yn eich eiddo, efallai y bydd yn syniad da ymestyn eich triniaeth tua 0.5m y tu hwnt i'r hyn sydd i'w weld, oherwydd yn aml, lle y mae llwydni wedi lledaenu ac mae'n tyfu, efallai na fydd yn weladwy. Bydd y pethau arferol yr ydym oll yn eu gwneud yn ein cartrefi, fel coginio, ymolchi, a golchi dillad yn ychwanegu lleithder ychwanegol i'r aer, ac maent yn gallu arwain at gyddwysiad ac mae'n gallu bod yn anodd ei osgoi yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae awyru yn chwarae rhan fawr mewn rheoli lleithder a lleihau lleithder gormodol. Bydd agor ffenestri a chadw agoriadau bychain ar ffenestri ar agor yn helpu, ac mae'n bwysig bod unrhyw ffaniau neu systemau awyru yn gweithio'n dda. Rhowch wybod i ni os byddwch chi'n cael unrhyw broblemau gyda'r rhai yn eich cartref, neu os nad yw'n ymddangos eu bod yn clirio'r ystafell mewn ffordd mor effeithiol ag y dylent. Bydd gan nifer ohonoch ffaniau sy'n ymateb i newidiadau o ran lleithder, felly efallai y byddwch yn clywed y ffan yn cyflymu pan fyddwch yn coginio neu'n ymolchi.

**Os bydd angen unrhyw help arnoch i reoli cyddwysiad neu lwydni, neu unrhyw gyngor am awyru eich cartref, cysylltwch â ni ar 0800 052 2526**

# Wordsearch


| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | M | S | U | R | U | M | T | O | B | O | G | A | N | L | C | D | P |
| P | I | N | W | Y | D | D | E | N | C | E | R | O | S | I | C | L | U |
| P | N | S | L | E | D | F | E | Y | U | F | Y | W | G | J | H | L | C |
| D | J | F | P | J | A | W | M | W | S | I | M | N | A | I | J | U | H |
| N | P | A | P | U | R | L | A | P | I | O | O | L | W | O | Y | W | E |
| A | W | U | O | A | R | Y | A | Y | J | R | O | A | S | N | S | C | L |
| O | P | L | G | A | E | A | F | N | D | L | L | E | T | A | N | H | W |
| N | F | R | H | O | S | A | N | P | C | H | W | U | G | E | J | W | Y |
| H | P | A | D | E | G | Y | N | A | D | O | L | I | G | B | O | Y | D |
| N | C | N | A | P | S | W | D | Y | N | E | I | R | A | A | C | N | D |
| F | C | E | Y | C | L | Y | D | S | O | O | E | R | D | N | T | T | Y |
| W | P | O | I | N | S | E | T | I | A | G | W | S | C | A | R | W | T |

1. ADEG Y NADOLIG
2. CARW
3. CLYD
4. DYN EIRA
5. GAEAF
6. HOSAN
7. LLE TAN
8. LLUWCHWYNT
9. OER
10. PAPUR LAPIO
11. PINWYDDEN
12. POINSETIA
13. SIMNAI
14. SLED
15. TOBOGAN
16. UCHELWYDD

# Sudoku

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | | | | 2 | 4 | | | 8 |
| | 2 | | | | 7 | | 6 | |
| 4 | 5 | 6 | | | | 7 | 1 | 2 |
| | 4 | | 2 | | | | | 3 |
| | | 5 | 9 | | 6 | 1 | | |
| 7 | | | | | 8 | | 5 | |
| 1 | 3 | 4 | | | | 6 | 9 | 5 |
| | 9 | | 4 | | | | 8 | |
| 5 | | | 1 | 3 | | | | 7 |

# Crossword



**Ar Draws**

4. Honni (5)
7. Carcharor mewn lloches (4)
9. Agwedd gadarnhaol neu ffafriol (2,5)
14. Trychaf (6)
16. Darn o arian bychan (5)
18. Pryd sy’n cael ei fwyta’n aml yn yr haf (5)
21. Enw arall arm y darn arian cyn-degol gwerth dwy swllt (7)
22. Sefyll yn llonydd, dim yn llifo (6)
23. Planhigyn gardd lluosflwydd gyda blodau mawr lliwgar (6)
24. Syst cyffredin y croen (7)

**I Lawr**

1. Mffler (6)
2. Ehanger o ddŵr (3)
3. Rhwydo (5)
5. Enw byr am Harri (3)
6. Preswylfa (6)
8. Amwys (7)
10. Dyffrffordd mewnolr (6)
11. Aderyn du a gwyn cyffredin sy’n nodedig am ladrad (6)
12. Unwaith mewn ____ (5)
13. Rhoi amlinelliad neu gyfri byr (4)
15. O lai o bwysigrwydd (7)
17. Dyfalbarhau, dioddef (5)
19. Electrod wedi’i wefru’n gadarnhaol (4)
20. Anifail fel ceffyl (4)

**Mae atebion i’r croesair yn ymddangos ar dudalen 35**


Preswylwyr ifanc ym Maes Yr Hufenfa yn mwynhau garddio

# Hwyl yn ystod yr Haf

Mae preswylwyr ifanc yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn creu cartref ar gyfer pryfed ger eu cartrefi eu hunain fel rhan o'u diwrnodau hwyl yn ystod yr haf.

Adeiladwyd ffrâm y gwesty pryfed ym Maes Yr Hufenfa, Sanclêr gan Hwb Sgiliau Sir Gaerfyrddin, a bu pobl ifanc yn helpu i'w lenwi gyda moch coed, brigau, dail sych a phethau naturiol eraill y mae pryfed yn hoffi nythu ynddynt.

Yn ystod sesiwn arall, bu'r plant yn cael hwyl yn paentio cerrig mân ac yn creu gwelyau uwch. Rhoddwyd bocs o gemau a theganau i'r rhieni i'w defnyddio yn ystod diwrnodau hwyl cymunedol a gynhelir yn y dyfodol.

> **Roedd y diwrnodau hwyl ym Maes Yr Hufenfa ymhlith cyfres o sesiynau a drefnwyd gan TWW a'n partneriaid yn ystod y gwyliau haf.**

Yn Dan y Bryn, Abergwaun, a Gwar Y Garth, ger Aberystwyth, gwahoddwyd teuluoedd i ddigwyddiad dal i fyny cymunedol, a oedd yn cynnwys gweithgareddau chwarae.

Bu rhieni yng Ngolwg y Castell, Aberteifi, yn defnyddio eu sgiliau newydd trwy drefnu rhaglen lwyddiannus o weithgareddau hwyliog ar gyfer yr haf. Bob dydd Iau trwy gydol mis Awst, buont yn trefnu diwrnodau hwyl ym Mharc Pentop, gan ddwyn sefydliadau lleol i mewn i helpu gydag amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc.





Preswylwyr yn creu dysglau plannu ym Mhentop, Aberteifi



Gwesty pryfed ym Maes Yr Hufenfa

## Atebion i'r Croesair

**Ar Draws: 4** haeru, **7** claf, **9** tuchaf, **14** bywell, **16** dimai, **18** salad, **21** fflorin, **22** cronni, **23** dahlia, **24** cornwyd

**I Lawr: 1** sgraf, **2.** mor, **3** maglu, **5** hal, **6** cartref, **8** angelur, **10** camlas, **11** pioden, **12** bywyd, **13** bras, **15** eiliadd, **17** mynnu, **19** anod, **20** asyn




# Trowch at ein rhifyn ar-lein o gylchgrawn In Touch

Mae'r fersiwn digidol yn unig o'n cylchgrawn In Touch ar gael i'w ddarllen ar-lein.

Cyhoeddwyd y cylchgrawn yn ystod yr haf, ac fe'i ddosbarthwyd mewn negeseuon e-bost. Os hoffech gael copi digidol, anfonwch e-bost at communications.team@wwha.co.uk

Mae'n cynnwys yr holl newyddion arferol o'n cymunedau a llawer mwy o luniau o'ch partïon dathlu ein pen-blwydd yn 60 oed.

Sganiwch y cod QR hwn i'w ddarllen neu trowch at: www.wwha.co.uk/intouch-magazine

Yn ystod y flwyddyn pan ydym yn dathlu ein pen-blwydd yn 60 oed, rydym yn adeiladu dros 600 o gartrefi ar draws Cymru ar hyn o bryd.

I gael gwybod mwy, trowch at dudalen 10.